## Diweddariad Uned Ddata - WSLC Hydref 2017

### Uned Ddata: Cynllun Strategol 2017-21

Mae tymor newydd cynghorau a newidiadau eraill i dirwedd gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfle amserol i ni ystyried cyfeiriad strategol yr Uned yn y dyfodol. Dros yr haf, rydym wedi datblygu cynllun strategol newydd a fydd yn rhoi cyfeiriad a ffocws i'n gwaith am y cyfnod 2017-21. Rydym wedi ystyried beth ddylwn a beth na ddylwn ni fod yn ei wneud, a sut mae uchafu'r gwerth rydym yn ei ychwanegu. Cafodd yr adroddiad drafft ei rhannu gyda'n Bwrdd yn fis Medi, gyda chyhoeddi'r fersiwn terfynol wedi'i gynllunio ar gyfer cynnar yn y flwyddyn newydd.

Ein bwriad yw ceisio barn rhanddeiliaid yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw feddyliau neu syniadau am gyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol, neu os hoffech chi drafod yr adolygiad, byddai'n dda iawn gennym glywed oddi wrthych chi – cysylltwch ag Andrew Stephens.

### Partneriaethau sgiliau rhanbarthol

Rydym yn parhau i gefnogi gwaith y tair partneriaeth sgiliau ranbarthol drwy eu harsyllfeydd data. Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu data pellach Gwybodaeth am y Farchnad Lafur at y systemau, sydd wedi cefnogi'r proses gynllunio eleni.

Lle bo'n bosibl rydym yn cefnogi ymagwedd gyson ledled Cymru tuag at y sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio a'i rheoli gan y partneriaethau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chris Perkins.

### Perfformiad awdurdodau lleol

Cyhoeddwyd, yn diweddar, y mesurau perfformaid 2016-17 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae data am 2016-17 yn dangos bod perfformiad wedi gwella mewn 64% o ddangosyddion cymaradwy i'w gymharu a 2015-16. Mae'r bwlch mewn perfformiad (rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai gwaethaf) wedi'i gulhau mewn dros hanner o'r dangosyddion.

Yr ydym ar hyn o bryd yn mireinio'r set ddata ar gyfer 2017-18. Yr ydym yn gweithio gyda arweinwyr polisi CLILC a'r rhwydweithiau cenedlaethol I ddatblygu mesurau newydd a byddem yn ymgynhori ar y newidiadau yn mis Rhagfyr. Bydd canllawiau y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yn mis Chwefror 2018.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper.

### Digwyddiad Hysbysrwydd Cenedlaethol 2018

Yn dilyn yr adborth positif cawsom ar gyfer y digwyddiad 2017 a gynhaliwyd ym mis Mawrth, rydym wedi dechrau ystyried pynciau ar gyfer y digwyddiad blwyddyn nesaf. Rydym yn gobeithio cadarnhau dyddiad a thema yn y wythnosau nesaf.

Mae manylion pellach am y digwyddiad, gan gynnwys dolenni â'r cyflwyniadau, ar gael ar ein gwefan.

### Asesiadau o'r boblogaeth a llesiant

Rydym yn parhau i gefnogi sawl ardal wrth iddynt symud ymlaen i gynlluniau ardal a llesiant o ran coladu a chyflwyno data i ddeall themâu sy'n dod i'r amlwg ac amcanion.

I gefnogi'r broses ymhellach, ac i sicrhau bod yr asesiadau'n hygyrch ac yn sylfaen i'r gwaith cynllunio sy'n mynd rhagddo, rydym yn gweithio gyda rhanbarthau i ddatblygu dulliau ar-lein. Bydd y rhain yn gweddnewid y dogfennau papur i mewn i dudalennau ar-lein sy'n cynnig asesiad rhyngweithiol wedi ei ategu gan y data sylfaen. Bydd rhain hefyd yn cadw'r data yn yr asesiadau yn 'fyw' a gwneud datblygu asesiadau yn y dyfodol yn llai beichus.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chris Perkins.

## Cytundeb Rhanbarth Prifddinas Caerdydd – Deall trefi’r rhanbarth

Mae’r Cytundeb Dinas yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion y trefi a'r cymunedau yn y rhanbarth, i lywio penderfyniadau buddsoddi a, dros amser, yn deall effaith ei gwaith. Gofynnwyd inni gefnogi ymarfer peilot, i ddatblygu proffil cychwynnol ar gyfer nifer fach o drefi.

Bydd yn dymuno cysylltu â 'arbenigwyr' cenedlaethol a lleol ar y gwaith hwn, yn arbennig o ran datblygu diffiniad cyffredin daearyddol ar gyfer y trefi a'r data y gellid eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Andrew Stephens.